Law Commission
Reforming the law

# Canllaw i Ymgeiswyr – Cyffredinol

## Swydd Cynorthwyydd Ymchwil 2025

# Cyflwyniad

Diolch i chi am eich diddordeb mewn gweithio fel cynorthwyydd ymchwil i Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am y swydd a sut i wneud cais amdani.

Darllenwch ef yn ofalus. Os na fyddwch yn dilyn y canllawiau, gallwch roi eich cais o dan anfantais neu achosi iddo fethu.

Mae ymgyrch recriwtio ar wahân ar gyfer pob un o'n pedwar tîm cyfreithiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais i'r tîm cywir. Gwnewch **gais am un tîm yn unig** gan nad yw'n arfer gennym ystyried mwy nag un cais.

**Mae Comisiwn y Gyfraith yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned ac rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal yn ein holl arferion, polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth. Mae hyn yn golygu bod pob ymgeisydd a gweithiwr yn cael ei drin yn deg, beth bynnag fo'i darddiad ethnig, ei hil, ei ryw, ei statws priodasol, ei gyfeiriadedd rhywiol, ei grefydd, ei oedran neu ei anabledd.**

Comisiwn y Gyfraith
1st Floor, Tower
52 Queen Anne's Gate
Llundain
SW1H 9AG

# Cynnwys


Pennod 1: Beth yw Comisiwn y Gyfraith? 4

Pennod 2: Pwy ydy pwy yng Nghomisiwn y Gyfraith? 5

Pennod 3: Beth yw camau prosiect? 6

Pennod 4: Rôl y Cynorthwyydd Ymchwil 7

Pennod 5: O ble mae ein Cynorthwywyr Ymchwil yn dod a beth maen nhw’n mynd ymlaen i wneud yn y dyfodol? 9

Pennod 6: Allech chi fod yn un o’n Cynorthwywyr Ymchwil? 10

Pennod 7: Y Timau 12

Pennod 8: Y Tîm Cyfraith Masnach a’r Gyfraith Gyffredin 13

Pennod 9: Y Tîm Cyfraith Trosedd 15

Pennod 10: Y Tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth 16

Pennod 11: Y Tîm Cyfraith Gyhoeddus a’r Gyfraith yng Nghymru 18

# Pennod 1: Beth yw Comisiwn y Gyfraith?

Comisiwn y Gyfraith yw'r corff statudol a sefydlwyd dan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i:

- gadw cyfraith Cymru a Lloegr o dan adolygiad, ac
- argymell diwygio lle bo angen.

Gall argymhellion y Comisiwn ar gyfer diwygio'r gyfraith gael effaith ddofn ar fywydau dinasyddion: rydym yn ceisio symleiddio'r gyfraith a'i gwneud yn fwy hygyrch i bawb.

O ganlyniad i'n gwaith, mae rhannau helaeth o'r gyfraith wedi bod yn destun ymchwiliad a gwelliant systematig.

Mater i'r Llywodraeth a'r Senedd, yn hytrach na ni, yw'r penderfyniad i weithredu ein hargymhellion. Serch hynny, mae mwy na dwy ran o dair o'n hargymhellion wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r **tabl gweithredu ar ein gwefan** yn dangos pa brosiectau sydd wedi cael eu derbyn a pha rai sydd wedi cael eu rhoi ar waith.

# Pennod 2: Pwy ydy pwy yng Nghomisiwn y Gyfraith?

Mae pum Comisiynydd llawn amser, pob un ohonynt yn cael eu penodi gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Mae bywgraffiadau byr ar gael ar ein gwefan.

Mae'r Cadeirydd yn farnwr Llys Apêl.



**Syr Peter Fraser, Cadeirydd**

Mae'r pedwar Comisiynydd arall yn farnwyr, bargyfreithwyr, cyfreithwyr neu'n athrawon cyfreithiol profiadol.

Cefnogir y Comisiynwyr gan y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyfreithiol, pedwar pennaeth tîm, tua 25 cyfreithiwr ym maes diwygio cyfraith, dau Gwnsler Seneddol, tua 18 Cynorthwyydd ymchwil, Economegydd a thîm o staff Gwasanaethau Corfforaethol.

Daw'r penaethiaid timau a'r cyfreithwyr o gymysgedd o gefndiroedd cyfreithiol, yn cynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr a darlithwyr cyfraith prifysgol. Mae cymysgedd o staff parhaol a staff cyfnod penodol, sydd hefyd yn aelodau o Broffesiwn Cyfreithiol y Llywodraeth. Fel arfer, penodir staff cyfnod penodol dros gyfnod y prosiect.

Ein Cwnsler Seneddol, sy'n paratoi'r Biliau drafft sy'n cyd-fynd â'n hadroddiadau, yw cyfreithwyr sydd ar secondiad o Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol (OPC).

# Pennod 3: Beth yw camau prosiect?

Ar ôl i ni gytuno i adolygu maes o'r gyfraith, byddwn yn penderfynu ar gylch gwaith y prosiect diwygio'r gyfraith ar y cyd â'r adran berthnasol yn y Llywodraeth. Bydd camau'r prosiect yn dibynnu ar y pwnc ac a fyddwn yn cynnig diwygio neu'n nodi'r problemau a darparu opsiynau i'r Llywodraeth eu hystyried.

Fel arfer, byddwn yn:

- gwneud astudiaeth o faes y gyfraith a nodi ei ddiffygion, gan edrych ar systemau cyfraith eraill i weld sut maent yn delio â phroblemau tebyg;
- cyhoeddi papur ymgynghori, sy'n nodi'n fanwl y gyfraith bresennol a'i diffygion, gan gyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn atebion posibl, a gwahodd safbwyntiau ar ein cynigion dros dro ac effaith debygol y diwygiadau;
- cyflwyno adroddiad terfynol i'r adran berthnasol yn y Llywodraeth, gan nodi ein hargymhellion a'r rhesymau drostynt (a gefnogir gan ganlyniadau ein hymgynghoriad), gan ddarparu asesiad effaith o effeithiau ymarferol diwygio a, lle bo angen, gan gynnwys Bil drafft sy'n rhoi ein hargymhellion ar waith.

# Pennod 4: Rôl y Cynorthwyydd Ymchwil



Mae'r rôl cynorthwyydd ymchwil yn cynnwys cymysgedd o ymchwil cyfreithiol, dadansoddi polisi a gwaith gweinyddol.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn sefydliad annibynnol bach sydd, serch hynny, yn chwarae rhan ganolog yn y Llywodraeth. Ar unrhyw un adeg, mae gennym dros ugain o brosiectau diwygio'r gyfraith yn mynd rhagddynt sy'n ymdrin ag ystod enfawr o faterion cymhleth a phwysig. Mae gennym gyfradd weithredu uchel iawn sy'n golygu bod y Llywodraeth a'r Senedd yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnawn.

Pobl sydd wrth galon Comisiwn y Gyfraith, ac rydym yn awyddus i recriwtio Cynorthwywyr Ymchwil medrus iawn. Mae ein hadroddiadau o'r radd flaenaf, ac mae gan ein Cynorthwywyr Ymchwil feddwl chwilfrydig a safonau trylwyr. Byddwch wir yn mwynhau mynd i'r afael â chwestiynau cyfreithiol anodd a datblygiadau polisi. Rydym yn gweithio ar amrywiaeth o faterion arloesol sy'n amrywio o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a chrypto-asedau mewn gwahanol feysydd polisi i ystyried sut y gallai dealltwriaeth fodern o effeithiau trais domestig gael ei hadlewyrchu mewn cyfraith droseddol.

Yn anad dim, mae Comisiwn y Gyfraith yn gorff cyfeillgar a cholegol. Mae ei waith yn ysgogol ac mae premiwm uchel yn cael ei osod ar ansawdd ein hallbwn. Mae'r hyn a wnawn yn bwysig iawn, ac rydym yn ymdrechu i'w wneud yn dda iawn. Ein Cynorthwywyr Ymchwil yw calon y sefydliad hwn ac yn y rôl honno, byddai gennych gyfle go iawn i wneud gwahaniaeth.

**Joanna Otterburn a Roshnee Patel (Jo & Rosh),Prif Weithredwyr ar y**cyd

## Cyn ymgynghoriad

Yng nghamau cynnar prosiect, gall cynorthwywyr ymchwil ddisgwyl edrych ar y gyfraith bresennol a chanfod sylwadau gan ymarferwyr ac academyddion ar y problemau sy'n gysylltiedig â hi ac opsiynau posibl ar gyfer diwygio. Efallai y gofynnir iddynt gynnal ymchwil gymharol, gan ystyried cyfraith gwlad ac awdurdodaethau cyfraith sifil. Efallai y gofynnir iddynt edrych ar arferion cyfredol y llysoedd neu ymchwil economaidd-gymdeithasol. Maent yn debygol o weithio gydag economegydd y Comisiwn i asesu effaith ymarferol y gyfraith bresennol ac opsiynau ar gyfer diwygio.

## Ymgynghoriad

Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhoi pwyslais mawr ar ymgynghori. Bydd cynorthwywyr ymchwil yn ymwneud yn agos ag ymchwilio, drafftio a chyhoeddi’r papur ymgynghori. Efallai y gofynnir iddynt helpu gyda gwaith yn y wasg neu waith cyfathrebu arall, a chyda digwyddiadau ymgynghori. Byddant fel arfer yn gweithio ar werthuso a dadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad.

## Ar ôl ymgynghori

Ar gam hwn y prosiect, mae’r tîm yn paratoi papur polisi yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Comisiynwyr ar gyfer eu hargymhellion terfynol arfaethedig. Bydd cynorthwywyr ymchwil yn helpu i baratoi’r papur hwn ac efallai y byddant yn rhan o’r broses o gyfarwyddo Cwnsleriaid Seneddol i ddrafftio Bil. Byddant yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o baratoi a chyhoeddi’r adroddiad terfynol. Os bydd y Llywodraeth yn derbyn ein hargymhellion, efallai y bydd cynorthwywyr ymchwil yn ymwneud â chefnogi’r broses o gyflwyno deddfwriaeth i’r Senedd gan y Llywodraeth.

## Bob amser

Mae’n ofynnol i Gynorthwywyr Ymchwil yng Nghomisiwn y Gyfraith ymateb yn hyblyg i’r amrywiol ofynion y gellir eu gosod arnynt. Gallai hyn gynnwys gofyn i chi weithio ar wahanol brosiectau ar fyr rybudd, ymchwilio i faes cyfreithiol newydd neu ddelio ag ymholiad gan aelod o’r cyhoedd. Efallai y gofynnir i chi gyfrannu at waith ehangach y Comisiwn, er enghraifft drwy gynorthwyo gyda gweithgareddau corfforaethol. Mae’r rôl hefyd yn cynnwys gwaith gweinyddol arferol fel cymryd cofnodion, trefnu cyfarfodydd, prawf ddarllen dogfennau a chynhyrchu copïau caled o gyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith. Yn benodol, mae Cynorthwywyr Ymchwil yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o baratoi dogfennau i’w cyhoeddi.

Mae Cynorthwywyr Ymchwil wastad yn brysur a disgwylir iddynt weithio’n galed, ond mae’r awyrgylch yn y swyddfa cynllun agored yn gyfeillgar, gydag oriau gwaith call a hyblyg. Bydd staff newydd yn cael sesiwn gynefino lawn ar ôl cyrraedd.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Cynorthwyydd Ymchwil **ar gael yma**.

# Pennod 5: O ble mae ein Cynorthwywyr Ymchwil yn dod a beth maen nhw'n mynd ymlaen i wneud yn y dyfodol?

Mae ein Cynorthwywyr Ymchwil yn ymuno â ni:

- yn syth ar ôl graddio;
- ar ôl cwblhau astudiaethau ôl-raddedig neu gymwysterau proffesiynol; neu
- maen nhw'n fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr cymwys.



Mae gweithio fel Cynorthwyydd Ymchwil yn rhoi cyfle i ddysgu'r hanfodion o ran llunio polisïau cyfreithiol a pharatoi deddfwriaethau.




Mae'r rôl yn galluogi unigolyn i gael cyfle unigryw i ddelio â'r materion hyn ac yn rhoi profiad rhagorol ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd yn y maes cyfreithiol.
Mae tystiolaeth yn dangos bod siambrau, cwmnïau cyfreithwyr a phrifysgolion yn ystyried yr amser a dreulir yng Nghomisiwn y Gyfraith yn eithriadol o werthfawr.



Mae ein Cynorthwywyr Ymchwil wedi mynd ymlaen i sicrhau gyrfaoedd llwyddiannus mewn amgylcheddau mor gystadleuol â'r Bar, cwmnïau cyfreithwyr blaenllaw mewn dinasoedd, Proffesiwn Cyfreithiol y Llywodraeth, y byd academaidd, a chyhoeddi cyfreithiol.

# Pennod 6: Allech chi fod yn un o'n Cynorthwywyr Ymchwil?

## Saiba Ahuja

**Cynorthwyydd Ymchwil yn y Tîm Cyfraith Masnach a'r Gyfraith Gyffredin**

### Sut beth yw gweithio i Gomisiwn y Gyfraith?

Mae gweithio yng Nghomisiwn y Gyfraith wedi bod yn brofiad ysgogol iawn gydag amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i ddatblygu'n broffesiynol ac yn ddeallusol. Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhoi cyfle i chi gymryd rhan ym mhob cam o'i waith, yn cynnwys cynnal ymchwil gychwynnol a sgimio testunau perthnasol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch eu barn, a chyfarfod ag adrannau'r llywodraeth i drafod polisïau arweiniol. Mae'r amrywiaeth hon yn cadw'r gwaith yn gyffrous ac yn rhoi cyfle i chi weithio ochr yn ochr â chymaint o bobl ddiddorol ar yr un pryd â bod yn rhan o sgyrsiau am y gyfraith sy'n ysgogi'r meddwl a dyfodol diwygio'r gyfraith. Yn bwysicaf oll, mae pob llais yn cael ei barchu yn y Comisiwn, sy'n golygu bod unrhyw gyfraniad rydych chi'n ei roi yn cael ei ystyried a gall helpu i lywio gwaith parhaus.

### Pam dod yn Gynorthwyydd Ymchwil?

Mae Comisiwn y Gyfraith wir yn amgylchedd unigryw. Mae gan y Comisiwn lefel enfawr o gyfrifoldeb dros arwain y gwaith o ddiwygio'r gyfraith, ac mae pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn yn ysgwyddo rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae gweithio gyda chynifer o unigolion gwybodus a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio cyfeiriad y prosiectau rydych chi'n gweithio arnyn nhw wedi bod yn brofiad dysgu gwerthfawr, ac mae ymdeimlad gwirioneddol o falchder mewn gwybod bod eich gwaith yn gallu llunio diwygiadau yn y dyfodol. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol unigryw sy'n gyffrous i unrhyw un sy'n frwd dros y gyfraith.

## Georgina Withers-Boalch

**Cynorthwyydd Ymchwil yn Nhîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru**

### Sut beth yw gweithio i Gomisiwn y Gyfraith?

Roedd ymuno â Chomisiwn y Gyfraith yn brofiad hynod groesawgar. Cefais fy synnu gan yr amgylchedd cefnogol, ar draws y Comisiwn ac o fewn fy nhîm. Roedd hyn yn gwneud y broses o drosglwyddo i'm swydd gyntaf yn llawer haws ei rheoli. Mae'r pwyslais yn y Comisiwn ar sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn golygu bod llawer o gyfleoedd i gymdeithasu â chydweithwyr y tu allan i'r gwaith. Rydw i wedi dod i werthfawrogi clwb rhedeg Comisiwn y Gyfraith yn gyflym iawn – dan arweiniad y Cadeirydd, Syr Peter Fraser – sy'n gyfle i gymryd hoe fach o'r swyddfa ar ddydd Mawrth!

### Pam dod yn Gynorthwyydd Ymchwil?

Cefais gyfleoedd a chyfrifoldebau na fyddwn wedi bod yn debygol o'u cael mewn mannau eraill. Y tu allan i waith prosiect, cefais y fraint o gymryd rhan mewn trafodaethau am ddyfodol cyfraith Cymru a chyfrannu atynt. Roedd cael mynd i Gynhadledd Cymru'r Gyfraith yn gyfle gwych i mi gwrdd â llu o ymarferwyr, academyddion cyfreithiol ac ustusiaid y Goruchaf Lys. Fel Cynorthwyydd Ymchwil yng Nghymru, cefais gipolwg amhrisiadwy ar faterion cyfoes sy'n bwysig i mi, ac mae gweithio ochr yn ochr ag unigolion o'r un anian i ddatblygu'r uchelgeisiau hyn yn werth chweil.



**Saiba Ahuja a Georgina Withers-Boalch, Cynorthwywyr Ymchwil**

# Pennod 7: Y Timau

Mae Cynorthwywyr Ymchwil yn cael eu neilltuo i un o bedwar tîm:

- Cyfraith Masnach a’r Gyfraith Gyffredin
- Cyfraith Trosedd
- Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth
- Cyfraith Gyhoeddus a’r Gyfraith yng Nghymru

Bydd pob tîm yn gweithio ar sawl prosiect gwahanol ar unrhyw un adeg. Neilltuir un cyfreithiwr ac un Cynorthwyydd Ymchwil i rai prosiectau; mae gan eraill ddau gyfreithiwr a dau Gynorthwyydd Ymchwil. Mae neilltuo staff i brosiectau yn dibynnu ar anghenion o ran adnoddau.

Bydd y broses o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad yn cael ei chynnal ar sail tîm. Meddyliwch yn ofalus pa dîm yr hoffech weithio iddo a pha un sydd fwyaf tebygol, yn eich barn chi, o’ch dewis chi, o ystyried eich profiad a’ch cyflawniadau.

# Pennod 8: Y Tîm Cyfraith Masnach a'r Gyfraith Gyffredin

**Comisiynydd:**

Gwag (Uwch Gwnsler Dros Dro David Hertzell)

**Pennaeth y tîm:**

Laura Burgoyne

**Cyfreithwyr y tîm:**

Amy Held

Nathan Tamblyn

Elsabé van der Sijde

Mae'r tîm Cyfraith Masnach a'r Gyfraith Gyffredin yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau sy'n ymwneud â thechnoleg yn ddiweddar, gan gynnwys crypto-asedau ac asedau digidol eraill, dogfennau masnach electronig (a arweiniodd at greu'r Ddeddf Dogfennau Masnach Electronig 2023), contractau cyfreithiol clyfar a llofnodion electronig. Mae meysydd cyfredol neu ddiweddar eraill yn cynnwys cyflafareddu, credyd defnyddwyr, buddiannau canolradd, dyletswyddau ymddiriedol cyfryngwyr buddsoddi, buddsoddiad cymdeithasol drwy gynlluniau pensiwn, cyfraith contractau yswiriant a hawliau defnyddwyr.

Mae'r prosiectau isod yn rhai parhaus, neu'n rhai a ragwelir, adeg ysgrifennu'r adroddiad. Lle mae prosiect ar y gweill, rydym wedi darparu dolen i dudalen y prosiect ar ein gwefan gyda rhagor o wybodaeth. Pan fydd prosiect ar gam cynharach (lle mae'n dal i gael ei drafod â'r Llywodraeth), ac nad yw ar ein gwefan eto, rydym wedi cynnwys paragraff byr am y gwaith posibl. Rydym yn rhagweld y bydd o leiaf rhywfaint o'r gwaith hwn yn mynd rhagddo pan fydd y garfan newydd o Gynorthwywyr Ymchwil yn dechrau ym mis Medi 2025.

Er ei bod yn debygol y bydd pob Cynorthwyydd Ymchwil yn cael ei neilltuo i un o brosiectau'r tîm, nid yw'n anghyffredin gofyn iddynt gyfrannu at brosiectau eraill, boed hynny fel trefniant tymor hwy neu ar gyfer tasgau mwy diffiniedig.

### Sefydliadau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol

Sefydliadau Cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol – Comisiwn y Gyfraith

### Cymdeithasau cyfeillgar

Cymdeithasau Cyfeillgar – Comisiwn y Gyfraith

### Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat: pa gyfraith, pa gwrt?

Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat: pa gwrt, pa gyfraith? – Comisiwn y Gyfraith

### Atebolrwydd am gynnyrch

Mae Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987 yn ymwneud â defnyddwyr sy'n cael eu niweidio gan "gynhyrchion" diriaethol diffygiol. Ni chafodd y ddeddf ei llunio i ddarparu ar gyfer datblygiadau meddalwedd a thechnolegol cysylltiedig fel dysgu peirianyddol neu argraffu 3D. Gall bylchau yn y drefn adael pobl yr effeithir arnynt heb ddiogelwch digonol, ac mae gweithgynhyrchwyr ac yswirwyr yn ansicr ynghylch eu hatebolrwydd. Byddai prosiect yn adolygu'r maes cyfreithiol hwn gyda'r bwriad o'i ddiweddaru i sicrhau ei fod yn addas i reoli technolegau modern a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

### Atebolrwydd sifil am niwed a achosir gan ddeallusrwydd artiffisial

Ar hyn o bryd, nid oes un diffiniad penodol ar gyfer ddeallusrwydd artiffisial, ond mae gan dechnolegau rhwydwaith niwral a dysgu peirianyddol modern nodweddion unigryw sy'n codi materion cyfreithiol newydd. Yn benodol, mae addasrwydd, ymreolaeth a hyblygrwydd y technolegau hyn yn codi pryderon ynghylch dyrannu atebolrwydd sifil am niwed a achosir gan ddeallusrwydd artiffisial. Rydym yn rhagweld y byddai'r prosiect hwn yn edrych ar faterion sy'n ymwneud ag atebolrwydd sifil cyfraith gyffredin am niwed a achosir gan ddeallusrwydd artiffisial, fel esgeuluster a chamliwio esgeulus, camweddau a chontractau economaidd, atebolrwydd caeth ac atebolrwydd dirprwyol ac ar y cyd.

### Casgliadau amgueddfeydd

Mae amgueddfeydd yn wynebu problemau sylweddol wrth ddelio â gwrthrychau lle, o ganlyniad i gofnodion caffael gwael neu ddim cofnodion o gwbl, mae'r teitl cyfreithiol yn ansicr neu mae'r perchnogion yn anhysbys neu ni ellir dod o hyd iddynt. Mae amgueddfeydd yn poeni am ddelio â gwrthrychau o'r fath (er enghraifft, eu trosglwyddo i amgueddfeydd eraill) oherwydd y risg o gael eu canfod yn atebol am gamwri sifil (trosiad) os nad oedd ganddynt hawl mewn gwirionedd i wneud hynny. Byddai'r prosiect hwn yn adolygu'r problemau hyn gyda golwg ar ddarparu rheolau cyfreithiol clir ynghylch sut mae gwrthrychau'n cael eu dal ac y gellir delio â nhw.

### Gweithredoedd

Mae gweithredoedd yn fath o ddogfen gyfreithiol sydd â gofynion penodol o ran ffurfioldeb ar gyfer gweithredu. Yn benodol, rhaid llofnodi gweithred "yng ngŵydd tyst" a rhaid "ei hardystio". Mae angen cwblhau rhai dogfennau fel gweithredoedd, gan gynnwys trefniadau sy'n ymwneud ag eiddo, ac atwrneiaethau. Gellid dadlau bod y gyfraith bresennol ar weithredoedd wedi dyddio, a byddai adolygiad yn ystyried a yw'r gyfraith bresennol yn addas i'r diben, gan ystyried y gwahanol fathau o bartïon sy'n defnyddio gweithredoedd, ac adlewyrchu datblygiadau technolegol.

# Pennod 9: Y Tîm Cyfraith Trosedd

**Comisiynydd:**
Yr Athro Penney Lewis

**Pennaeth y tîm:**
David Connolly

**Cyfreithwyr y tîm:**
Nicholas Hoggard
Robert Kaye
Lawrence McNamara
Roseanna Peck
Jessica Skins

Mae'r Tîm Trosedd yn ymgymryd â phrosiectau sy'n amrywio o godeiddio ar raddfa fawr i adolygiadau byrrach o broblemau cyfreithiol pwysicach. Pan fydd Cynorthwywyr Ymchwil newydd yn ymuno â'r Comisiwn yn 2025, byddwn yn parhau i weithio ar o leiaf bedwar prosiect sydd eisoes ar y gweill.

Mae'r prosiectau isod yn rhai parhaus, neu'n rhai a ragwelir, adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Rydych yn debygol o weithio'n bennaf ar un o brosiectau'r tîm. Fodd bynnag, mae'n eithaf cyffredin i chi gyfrannu at brosiectau eraill, boed hynny fel trefniant tymor hwy neu ar gyfer tasgau mwy diffiniedig.

### Dirmyg Llys

Dirmyg Llys – Comisiwn y Gyfraith

### Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol

Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol – Comisiwn y Gyfraith

### Apeliadau Troseddol

Apeliadau troseddol – Comisiwn y Gyfraith

### Adolygu'r gyfraith: Lladdiad

Adolygu'r gyfraith: Lladdiad – Comisiwn y Gyfraith

# Pennod 10: Y Tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth

**Comisiynydd:**
Yr Athro Nicholas Hopkins

**Pennaeth y tîm:**
Colin Oakley (parhaol) a Spencer Clarke (dros dro)

**Cyfreithwyr y tîm:**
Andrew Bazeley
Charlotte Black
Christine Gentry
Thomas Nicholls
Christopher Pulman
Daniel Robinson
Elizabeth Welch

Mae'r tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedaeth yn delio ag amrywiaeth o feysydd pwnc gwahanol. Mae Cynorthwywyr Ymchwil yn y tîm fel arfer yn canolbwyntio ar un o brosiectau'r tîm, ond ar adegau efallai y bydd cyfle i gymryd rhan mewn meysydd eraill.

## Nodyn pwysig i ymgeiswyr i'r tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedaeth

Mae'r tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedaeth yn delio ag ystod eang o gyfreithiau, ac rydym yn gwerthfawrogi mai dim ond mewn meysydd penodol y bydd gan rai ymgeiswyr ddiddordeb mewn gweithio. Er enghraifft, efallai na fydd gan ddarpar gyfreithwyr teulu ddiddordeb mewn cyfraith eiddo neu ymddiriedolaeth, ac i'r gwrthwyneb. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallai ymgeiswyr nodi'r canlynol yn yr adran 'Gwybodaeth Gyfreithiol Berthnasol' o'u cais:

- os oes ganddynt **ddiddordeb yn holl** feysydd gwaith y tîm; neu
- os oes ganddynt **fwy o ddiddordeb** mewn un neu fwy o feysydd gwaith penodol; neu
- os oes ganddynt **dim ond ddiddordeb** mewn un neu fwy maes gwaith.

Byddwn yn dewis ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad ar sail eu dewisiadau. Sylwch na allwn warantu y bydd cyfleoedd i weithio ar brosiectau penodol, gan gynnwys y rhai a restrir isod. Gall prosiectau eraill ddod i'r amlwg, neu gallai blaenoriaethau ac amseriad prosiectau presennol newid. Rydym yn argymell eich bod yn cadw llygad ar y newyddion diweddaraf ar ein gwefan am gyhoeddiadau am yr hyn y mae'r tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedaeth yn ei wneud. Cofiwch, os ydych yn bwriadu nodi mai dim ond mewn ychydig o feysydd gwaith mae gennych ddiddordeb, y gallai hyn gyfyngu ar eich siawns o gael swydd.

Mae'r prosiectau isod yn rhai parhaus, neu'n rhai a ragwelir, adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Ewyllysiau**

Ewyllysiau – Comisiwn y Gyfraith

**Claddu ac Amlosgi**

Claddu ac Amlosgi – Comisiwn y Gyfraith

**Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion**

Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion – Comisiwn y Gyfraith

**Tenantiaethau Busnes: yr hawl i adnewyddu**

Tenantiaethau Busnes: yr hawl i adnewyddu – Comisiwn y Gyfraith

**Gofal gan Berthynas**

Gofal gan Berthynas (Gofal gan Berthynas – Comisiwn y Gyfraith)

**Atebolrwydd Atgyweirio Cangell a Chofrestru**

Atebolrwydd Atgyweirio Cangell a Chofrestru

**Prosiectau posibl eraill**

Yn ogystal â'r prosiectau a nodir uchod, gall y tîm hefyd ddechrau prosiectau mewn meysydd eraill o gyfraith eiddo, teulu ac ymddiriedolaeth. Gallai'r rhain gynnwys Moderneiddio'r Gyfraith Ymddiriedolaethau a'r rhai sy'n rhan o'n **14eg Rhaglen ar gyfer Diwygio'r Gyfraith**.

# Pennod 11: Y Tîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru

**Comisiynydd:**

Yr Athro Alison Young

**Pennaeth y tîm:**

Henni Ouahes

**Cyfreithwyr y tîm:**

Connor Champ

Fiona Couzens

Ben Godfrey

Connor Johnston

Laura Jones

Rebecca Mandal

Alexander Ruck Keene

Mae gwaith y tîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru yn ymestyn i gyfraith gyhoeddus a rheoleiddio yng Nghymru a Lloegr. Mae'r tîm hefyd wedi ymgymryd â nifer o brosiectau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar faterion cyfraith ddatganoledig yng Nghymru.

### Nodyn pwysig am gyfraith ddatganoledig Cymru a siaradwyr Cymraeg

Mae tîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn gweithio ar gyfraith ddatganoledig yng Nghymru, naill ai fel rhan o brosiect ar gyfer Llywodraeth Cymru, neu oherwydd bod un o'n prosiectau yng Nghymru a Lloegr yn cyffwrdd â materion sydd wedi'u datganoli i'r Senedd neu i Weinidogion Cymru.

Mae diddordeb yn y gyfraith datganoli ac unrhyw brofiad ohoni, yn enwedig y setliad datganoli yng Nghymru, yn ddymunol ac rydym yn annog ymgeiswyr i nodi eu diddordeb a'u profiad yn adran "Gwybodaeth Gyfreithiol Berthnasol" eu cais.

Yn yr un modd, rydym yn annog yn gryf bod siaradwyr Cymraeg yn nodi lefel eu gallu i siarad Cymraeg yn adran "Cyfathrebu" y ffurflen gais. Rydym yn disgrifio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y "Canllaw i Ymgeiswyr – Sut i Wneud Cais".

### Ymreolaeth ym maes Hedfan

Ymreolaeth ym maes hedfan – Comisiwn y Gyfraith

### Prynu Gorfodol

Prynu gorfodol – Comisiwn y Gyfraith

**Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl**

Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl – Comisiwn y Gyfraith

**Cyfraith amaethyddol yng Nghymru**

Cyfraith Amaethyddol yng Nghymru – Comisiwn y Gyfraith

**Dulliau Angladdol Newydd**

Dulliau Angladdol Newydd – Comisiwn y Gyfraith

**Adolygiad Gweinyddol (wedi'i ohirio – bydd yn ailddechrau pan fydd adnoddau ar gael)**

Adolygiad Gweinyddol – Comisiwn y Gyfraith